# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 12 Mai 2015** |
| Amser: | **09.02 – 09.55** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/d779128a-6328-4245-8d9a-d91ecfa6a44c?autostart=True

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Pwyllgor.

Estynnodd groeso cynnes i Aelodau a staff Cydbwyllgor Trosolwg o Wasanaethau Cyhoeddus a Deisebau, Senedd Gweriniaeth Iwerddon, a oedd yn arsylwi yn yr Oriel Gyhoeddus.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-630 Rheoliadau Facebook ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi sylwadau pellach y deisebydd, ac i ofyn a allai ef neu ei swyddogion gwrdd â'r deisebydd i drafod y materion penodol a godwyd fel rhan o'r ddeiseb;
- Y Comisiynydd Plant i ofyn am ei barn; a
- Plant yng Nghymru i ofyn pa wybodaeth sydd ganddo am y mater hwn.

### 2.2 P-04-631 Achub ein Gwasanaeth - Achub Anifeiliaid Mawr yng Ngogledd Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- Ysgrifennu at:
  - Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru; ac
  - Y RSPCA

  i ofyn eu barn am y ddeiseb.
- Undeb y Brigadau Tân, Cymru yn gofyn am wybodaeth am y sefyllfa yn Ne a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

### 2.3 P-04-632 Mynyddoedd Pawb

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at:
- Gomisiynydd y Gymraeg, i ofyn am ei barn am y ddeiseb;
- Croeso Cymru a Chynghrair Twristiaeth Cymru, o gofio amcan y deisebwyr i ddefnyddio'r mater hwn fel ffordd o hyrwyddo mentrau twristiaeth awyr agored;
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; ac
- Y Dirprwy Weinidog, i ofyn ei farn am sylwadau pellach y deisebydd;
- Ceisio cael cyngor cyfreithiol ar rôl Llywodraeth Cymru, ac yn benodol, a allai'r Llywodraeth gymryd rhan fwy uniongyrchol yn y broses, o bosibl drwy gyfrwng y Bil Amgylchedd Hanesyddol, unwaith y caiff ei gyflwyno.

### 2.4P-04-633 Codi Ymwybyddiaeth o'r Band Eang Gwael yn Ein Hardal

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd am lythyr y Dirprwy Weinidog Addysg a Sgiliau.

## 3 Yr wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-03-236 Siarter i Wyrion ac Wyresau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i:

- Ysgrifennu at y deisebydd yn diolch iddo am ei ateb ystyriol ac am ymgysylltu â'r broses ddeisebu; a
- Chau'r ddeiseb, o gofio ei bod yn ymddangos bod digwyddiadau wedi symud ymlaen ers i'r ddeiseb gael ei hystyried ddiwethaf.

### 3.2P-04-587 Tîm Cymorth pwrpasol ar gyfer dioddefwyr Enseffalomyelitis Myalgig (ME), Syndrom Blinder Cronig a Ffibromyalgia yn ne-ddwyrain Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Aros am ymateb gan y deisebwyr; ac
- Ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn diolch iddo am ei ateb defnyddiol, ac yn gofyn am gael gwybod am y prif gamau gweithredu y cytunwyd arnynt o ganlyniad i gyfarfod cyntaf y grŵp gweithredu, a oedd i'w gynnal ar 13 Mai.

### 3.3P-04-363 Cynllun i Wella Canol Tref Abergwaun

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd, yng ngoleuni sylwadau'r deisebydd, i ysgrifennu at:

- Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a Chyngor Sir Penfro yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynlluniau ar gyfer gwella canol tref Abergwaun; ac
- Y deisebydd, yn gofyn a oes unrhyw gamau pellach penodol y gallai'r Pwyllgor eu cymryd i wneud cynnydd o ran y ddeiseb.

### 3.4P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau:

- Yn gofyn am ei farn ar sylwadau pellach y deisebydd ac yn benodol, yn gofyn am ei farn ar gynnig y deisebydd i sefydlu grŵp llywio i gynnwys arbenigwyr o bob sector; ac
- Yn diolch iddo am addo i ddarparu diweddariad ysgrifenedig i'r Pwyllgor erbyn 5 Mehefin.

### 3.5P-04-581 Gwrthwynebiad i'r toriadau mewn ar gyfer Dysgwyr o Saesneg fel Iaith Ychwanegol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gofyn am ei sylwadau ar gynnwys llythyr Cyngor Dinas Abertawe a'r feirniadaeth oblygedig a geir ynddo; ac
- Aros am sylwadau pellach gan y deisebydd.

### 3.6P-04-615 Taliad Benthyciad Teg i Fyfyrwyr yn y Flwyddyn Olaf o Hyfforddiant

- Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am sylwadau pellach gan y deisebydd.

### 3.7P-04-537 Plannu Coed i Leihau Llifogydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd i nodi pryderon y deisebydd wrth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol.

### 3.8P-04-544 Gwahardd Saethu Gwyddau Talcen-wen yr Ynys Las

Roedd Joyce Watson am gofnodi ei bod yn aelod o'r RSPB.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Drosglwyddo llythyr yr Athro Fox i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ofyn am ei farn ar ei gynnwys, ac ar y rheswm pam mae'n ymddangos bod Lywodraeth Cymru wedi dangos ei bod yn erbyn diogelwch statudol i'r aderyn hwn er bod gwladwriaethau eraill wedi sicrhau hynny;
- Gofyn iddo ailystyried safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

### 3.9P-04-539 Achub y Gyfnewidfa Lo

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gofyn iddi:
    - ganiatáu i'r Pwyllgor weld canlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol cyn gynted ag y byddant ar gael; ac
    - am ragor o wybodaeth am y broses o ddewis y contractwyr a ddefnyddiwyd i gynnal yr astudiaeth ddichonoldeb, ac yn benodol, pam nad contractwyr CADW a ddefnyddiwyd;

- am gael ymweld â'r tu allan i'r Adeilad, gyda'r deisebydd, fel y gall yr Aelodau gael dealltwriaeth well o gyflwr yr Adeilad.

### 3.10 P-04-617 Stopiwch y Troslgwyddo Dilyffethair o Lyfrgelloedd Cyhoeddus i'r Sector Gwirfoddol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn gofyn ei farn am sylwadau pellach y deisebydd; a
- Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn am ei barn am lythyr y Dirprwy Weinidog.

### 3.11 P-04-578 Gwaith Gostegu Sŵn ar yr M4, i'r Gorllewin o Gyffordd 32

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Ysgrifennu eto at y Gweinidog i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa, gan gynnwys unrhyw amcangyfrif ynghylch pryd y bydd gwaith i wella'r sefyllfa ar gyfer y deisebydd yn debygol o ddigwydd.
- Gwrthod y cais am ymweliad safle ar hyn o bryd, o ystyried bod y lefel sŵn uchel yn yr ardal yn cael ei dderbyn ar hyn o bryd.

### 3.12 P-04-609 Cefnogwch Fusnesau Bach - Cefnogwch ein Strydoedd Mawr

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a chytunwyd i:

- Aros am sylwadau gan y deisebydd, ac
- Os bydd y deisebydd yn cytuno, o ystyried bod llythyr y Gweinidog yn awgrymu bod prif fyrdwn y mater a godwyd wedi cael ei gyflawni, i gau'r ddeiseb.

### 3.13 P-04-614 Cefnogi Gwasanaeth Dosbarth Cyntaf Arriva Trains Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Aros am sylwadau pellach gan y deisebydd;

- Ystyried cau'r ddeiseb gan ei bod yn anodd gweld sut y gallai'r Pwyllgor ychwanegu unrhyw werth pellach.

### 3.14 P-04-459 Cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- Ofyn am sylwadau gan y deisebydd;
- Ystyried cau y ddeiseb gan fod llythyr y Gweinidog yn nodi nad yw pwnc y ddeiseb wedi'i ddatganoli mewn gwirionedd.

### 3.15 P-04-416 Gwasanaethau Rheilffyrdd Gogledd-De

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd i ofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am ei barn ar sylwadau pellach y deisebydd.

## 4 Gohebiaeth

4.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chytunodd i weithio gyda Chydffederasiwn y GIG i helpu i hwyluso atebion gan Fyrddau Iechyd Lleol.

4.2 Yn dilyn cynnig gan y Cadeirydd, cytunodd y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn trafod mater sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.